Amgueddfa
Syr Henry Jones
Museum

**Amgueddfa Sir Henry Jones**
**Y Cwm, Llangernyw, Abergele LL22 8PR**

Amgueddfa
Syr Henry Jones
Museum

Y Cwm, Llangernyw, Abergele, LL22 8PR

Mae Ymddiriedolaeth Amgueddfa Syr Henry Jones eisiau penodi person rhan-amser â chymwysterau addas i weithio am ddwy flynedd fel swyddog datblygu ar brosiectau i sicrhau dyfodol yr amgueddfa. Ariennir y swydd hon gan Gronfa Dreftadaeth.

**SWYDD-DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | **Swyddog Datblygu Amgueddfeydd** |
| **Yn atebol i'r:** | **Ymddiriedolaeth Goffa Syr Henry Jones** |
| **Pwrpas y Swydd:** | Darparu a goruchwylio gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer y cyhoedd yn Amgueddfa Syr Henry Jones, gan gynnwys goruchwylio gwirfoddolwyr. Bod yn gyfrifol am y dderbynfa a'r siop yn yr amgueddfa am 2 ddiwrnod yr wythnos. Croesawu ymwelwyr drwy eu cyfarch; cyflawni ceisiadau am grantiau bach; trefnu a goruchwylio digwyddiadau arbennig a chwblhau'r gwaith gweinyddol cysylltiedig, y cyfrifon a'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd. Darparu gwasanaeth hyblyg, cyfeillgar ac effeithlon a sicrhau diogelwch a'r gwasanaeth i gwsmeriaid o'r safon uchaf i bob un sy'n ymweld â'r amgueddfa. Cynorthwyo i gynnal diogelwch yr amgueddfa a'i chasgliadau. |

Amgueddfa
**Syr Henry Jones**
Museum

## Amgueddfa Sir Henry Jones
## Y Cwm, Llangernyw, Abergele LL22 8PR

Disgwylir i ddeiliad y swydd ymgymryd â'r canlynol. Nid yw'r rhestr o reidrwydd yn gyflawn ac mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i chi gyflawni dyletswyddau eraill o natur a lefel debyg o bryd i'w gilydd.

### Prif Gyfrifoldebau:

1. Ymgymryd â dyletswyddau'r dderbynfa ac ymgysylltu ag ymwelwyr ag Amgueddfa Syr Henry Jones. Sicrhau amgylchedd croesawgar a phrofiad pleserus i ymwelwyr. Bod yn gynhwysol a rhoi croeso dwyieithog.

2. Ateb ymholiadau ymwelwyr a rhoi gwybodaeth am yr amgueddfa e.e. casgliadau, oriau agor, cyfarwyddiadau, digwyddiadau a gwasanaethau dysgu.

3. Ymgymryd â'r gwaith o recriwtio gwirfoddolwyr a llunio rotâu o wirfoddolwyr.

4. Gwaith gweinyddol cyffredinol gan gynnwys: dewis, archebu ac arddangos stoc mewn modd sy'n apelio'n weledol ar gyfer siop yr amgueddfa a gwerthiannau ar-lein i sicrhau'r incwm uchaf posib; cynnal cofnodion a chyfrif stoc; creu a phrosesu anfonebau; paratoi ar gyfer bancio; rheoli arian mân a chadw cyfrifon ysgrifenedig.

5. Sicrhau bod yr Amgueddfa'n lân ac yn daclus ac yn gwbl weithredol.

6. Cyrraedd y meincnodau a amlinellir yn achrediad Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr.

7. Cwblhau ceisiadau am grantiau bach i godi arian y mae mawr ei angen ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau a chynnal a chadw gardd yr amgueddfa.

8. Goruchwylio gwirfoddolwyr a lleoliadau gwaith yn ôl yr angen, gan gynnwys sesiynau sefydlu, hyfforddiant, gwerthusiadau a gweithdrefnau ar gyfer gwacáu mewn argyfwng. Cymell pob gwirfoddolwr a hyrwyddo gwasanaeth i gwsmeriaid o safon uchel.

Amgueddfa
Syr Henry Jones
Museum

# Amgueddfa Sir Henry Jones
## Y Cwm, Llangernyw, Abergele LL22 8PR

9. Dan gyfarwyddyd yr Ymddiriedolaeth, cynorthwyo â’r gwaith o hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i’r amgueddfa ar gyfer ymwelwyr posibl, wyneb yn wyneb a dros y we, a chynnal cronfa ddata o gysylltiadau yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

10. Cofnodi, monitro, adolygu ac adrodd ar berfformiad nifer y bobl sy’n ymweld â’r amgueddfa ac ar gyfer digwyddiadau arbennig a chasglu data sydd ei angen ar gyfer adroddiadau’r Gronfa Dreftadaeth.

11. Bod yn ddeiliad allweddi.

12. Cyfrannu at raglenni a gweithgareddau'r amgueddfa a chyflawni unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl gofynion yr Ymddiriedolaeth a gweithio ochr yn ochr â’r Ymgynghorydd Amgueddfeydd i greu cynllun busnes a chyflawni achrediad yn ogystal â chyfrannu at ymarfer ail-frandio.

13. Cynnal cysylltiadau cadarnhaol a chydweithredol â Swyddog Amgueddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a thimau eraill o fewn CBSC a budd-ddeiliaid allanol perthnasol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

14. Gweithredu polisïau Amrywiaeth, yr Iaith Gymraeg a Diogelu Ymddiriedolaeth Syr Henry Jones ym mhob agwedd ar gyflogaeth a darparu gwasanaethau.

15. Cyfrannu at Bolisïau a Gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch ac Asesiad Risg cysylltiedig ar gyfer digwyddiadau. Dilyn gweithdrefnau penodol ar gyfer diogelwch pawb sy'n defnyddio safle'r amgueddfa a'i arddangosfeydd a'i chasgliadau er mwyn atal achosion o ddwyn, fandaliaeth neu ddifrod.

16. Cysylltu â Bwyd Bendigedig Conwy a sicrhau rhagor o gyllid i gynnal eu mewnbwn nhw gan arwain gweithgareddau a chynghori gwirfoddolwyr ar yr hyn sydd angen ei wneud yn yr ardd.

## MANYLION AM YR UNIGOLYN

| EITEM | HANFODOL | DYMUNOL | SUT Y CAIFF EI BROFI |
|---|---|---|---|
| **CYMWYSTERAU** | Sgiliau rhifedd a llythrennedd da hyd | Tystysgrif Cymorth Cyntaf | Ffurflen Gais |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | at lefel TGAU (neu gyfwerth) mewn Mathemateg a Saesneg<br><br>Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Cydnabyddedig (Cyfredol) | |
| **HYFFORDDIANT** | Goruchwylio, cynnal cyfarfodydd sefydlu a hyfforddi gwirfoddolwyr<br><br>Profiad o weithio mewn amgylchedd manwerthu, wedi defnyddio tiliau electronig a phrofiad o ymdrin ag arian parod.<br><br>Sgiliau gwasanaeth i gwsmeriaid rhagorol<br><br>Profiad o weithio mewn amgylchedd lle'r ydych chi'n ymwneud â'r cwsmer | Cofnod o weithio yn unol â safonau arferion gorau<br><br>Systemau Larwm | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **GWYBODAETH ARBENIGOL** | Dealltwriaeth sylfaenol o reoliadau Iechyd a Diogelwch.<br><br>Dealltwriaeth eang o gyd-destun hanesyddol bywyd Syr Henry Jones a chasgliadau'r Amgueddfa | Profiad o weithio mewn amgylchedd diwylliannol.<br><br>Ymwybyddiaeth o sefydliadau diwylliannol yng Nghonwy<br><br>Dealltwriaeth o Gynllun Sicrhau | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

Amgueddfa
Syr Henry Jones
Museum

**Amgueddfa Sir Henry Jones**
**Y Cwm, Llangernyw, Abergele LL22 8PR**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr<br><br>Ymwybyddiaeth o Gynlluniau Amgueddfeydd mewn Argyfwng ar gyfer casgliadau | |
| **DAWN BERSONOL** | Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol a gallu i uniaethu'n dda ag amgueddfeydd, grwpiau defnyddwyr, gwirfoddolwyr a chydweithwyr.<br><br>Gallu gweithio'n effeithlon, trefnus a thrylwyr<br><br>Gallu gweithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol, gan ddefnyddio blaengaredd. Gweithio'n dda yn rhan o dîm<br><br>Gallu annog gwirfoddolwyr a rhoi cyfarwyddyd<br><br>Bod yn unigolyn hyblyg, sydd ag agwedd gadarnhaol ac sy'n hawdd mynd atynt | Dealltwriaeth o blant ac oedolion diamddiffyn | Ffurflen Gais a Chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel<br><br>Eiriolwr dros Amgueddfa Syr Henry Jones | | |
| **SGILIAU YMARFEROL A DEALLUSOL** | Sgiliau cyfathrebu a threfnu ardderchog<br><br>Gallu defnyddio Microsoft Word, Outlook<br><br>Sgiliau gweinyddu cyllid sylfaenol ac ysgrifennu adroddiadau | | Ffurflen Gais a Chyfweliad |
| **CYDRADDOLDEB** | Wedi ymrwymo i Gyfle Cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol | Gallu neu barodrwydd i roi croeso i ymwelwyr yn y Gymraeg | Ffurflen Gais |
| **GOFYNION ERAILL** | Cofnod presenoldeb da<br><br>Dim cofnod troseddol anffafriol<br><br>Hawl i Weithio yn y DU<br><br>Gallu a pharodrwydd i weithio o bryd i'w gilydd y tu allan i oriau gwaith arferol yn ôl yr angen.<br><br>Bod yn abl yn gorfforol i ymgymryd | Meddu ar drwydded yrru gyfredol. | Cyfweliad,<br><br>Geirdaon |

Amgueddfa
Syr Henry Jones
Museum

**Amgueddfa Sir Henry Jones**
**Y Cwm, Llangernyw, Abergele LL22 8PR**

<table>
<tr><td></td><td>â'r swydd sy'n cynnwys dringo grisiau.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">PWYSIG<br><br>DEDDF AILSEFYDLU TROSEDDWYR<br><br>Nid yw darpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr sy'n ymwneud â pheidio â datgelu euogfarnau wedi’u disbyddu yn berthnasol i'r swydd hon. Felly, <u>mae’n rhaid i chi ddatgelu a oes gennych chi unrhyw euogfarnau blaenorol</u> ar y ffurflen gais.<br><br>Os byddwch chi’n llwyddiannus, bydd gofyn i chi hefyd wneud cais am Wiriad Cofnodion Troseddol.</td></tr>
</table>

**Dylid anfon ceisiadau ar e-bost ynghyd â llythyr eglurhaol i;**
**Ymddiriedaeth Syr Henry Jones**
**E-bost: Ysgrifenydd Ymddiriedolaeth**
**Holly.Evans@denbighshire.gov.uk**